| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Comisiynydd Margaret Foster |
| **DYDDIAD** | 13.04.2012 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Buddsoddiadau yn y Sector Gwirfoddol 2012/2013 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi manylion am y Cytundebau Lefel Gwasanaeth presennol a gwariant gyda darparwyr 3ydd sector. Rhoi manylion am lefel y buddsoddi i gomisiynu gwasanaethau yn ystod 2012/2013 a sicrhau arbedion 5%. |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL CYMUNED DROS DRO** |

## 1.0 Cefndir

1.1 Ar hyn o bryd, fe geir 19 o ddarparwyr 3ydd Sector sy'n darparu ystod amrywiol o wasanaethau i Gyngor Sir Ynys Môn o dan Gytundebau Lefel Gwasanaeth, sef cyfanswm buddsoddiad o £553,576.89 yn ystod 2011/12. Nid yw'r Cyngor wedi rhoi ychwaneg o arian ar gyfer chwyddiant i'r darparwyr hyn am y 3 blynedd ddiwethaf.

1.2 Dros y blynyddoedd, mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi comisiynu gwasanaethau ychwanegol gan rai darparwyr trwy ddefnyddio ffrydiau cyllido ychwanegol sy'n cynnwys:

- Cyllid grant wedi'i glustnodi gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a datblygu gwasanaethau ychwanegol yn unol â blaenoriaethau polisi cenedlaethol;
- Cyllid Cymorth (yn awr Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf) trwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc;
- Cyllid Grant Cefnogi Pobl.

Felly, mae nifer o fudiadau wedi derbyn cyllid ychwanegol i gomisiynu gwasanaethau ychwanegol ar ben y dyraniadau cyllid craidd gwreiddiol o gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol a hynny er mwyn pwrcasu gwasanaethau o dan y Cytundebau Lefel Gwasanaeth.

1.3 Bu'n rhaid i'r holl ddarparwyr sydd dan gontract gyflwyno dychweliadau chwarterol i'r Uned Contractau. Mae'r cyfan o'r 19 wedi cwblhau hyn ac nid oes unrhyw achos i bryderu wedi dod i'r amlwg. Fodd bynnag, y mae yna angen cynnal adolygiad manwl o'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth presennol er mwyn sicrhau aleiniad gyda'r bwriadau comisiynu.

1.4 Mae'r rheolwr contractau wedi adolygu rhai o'r gwasanaethau unigol ac yn unol â gwerth gorau ac effeithlonrwydd gwasanaeth, mae argymhellion wedi eu gwneud i ddadgomisiynu rhai gwasanaethau ac i ailfodelu eraill. Fe wnaed penderfyniad hefyd i beidio mynd ymlaen gyda chontract oedd i fod i ddechrau yn Ebrill 2012, gweler pwynt 2 am fanylion pellach.

## 2.0 Dadgomisiynu ac ailfodelu'r gwasanaethau presennol

### 2.1 Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gofal a Thrwsio i ddarparu Gwasanaeth Addasiadau Bychan

Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi gwneud y penderfyniad i ddadgomisiynu'r gwasanaeth hwn ac i resymoli mynediad a darpariaeth addasiadau bychan yn fewnol trwy Ganolfan Byron. Fe roddwyd rhybudd i derfynu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar 31 Mai 2012. O ganlyniad, fe sicrhawyd arbedion effeithlonrwydd o £37,500. Cost y gwasanaeth hwn yn ystod 2011/12 oedd £147,500.00. Amcangyfrifir mai'r gost o ddarparu'r gwasanaeth hwn yn fewnol fydd tua £110,000.

### 2.2 Canolfan Ddydd Biwmares

Yn absenoldeb Cynllun Busnes cadarn a dichonadwy ar gyfer tanlinellu'r cynnig I drosglwyddo'r gwasanaeth, mae'r uwch Dîm Arweinyddiaeth eisoes wedi cymeryd y penderfyniad i beidio symud ymlaen gyda throsglwyddo'r Ganolfan Ddydd i Age Cymru (a adnabuwyd fel Age Concern Gwynedd ac Ynys Môn yn flaenorol) o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth fel oedd wedi'i fwriadu ar gyfer 2012/13. Bydd hyn yn golygu, felly, na fydd yr Adran yn ymrwymo £53,000 yn ystod 2012/13 fel oedd wedi'i gynllunio. Nid oes yna unrhyw arbediad ond fe fydd y newid o ran ymrwymiad yn golygu na fydd yn rhaid gwario £96,000.00 dros y 3 blynedd nesaf.

### 2.3 Agoriad Cyf. a Taran

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Adran – trwy'r Prosiect Taith i Waith a noddir gan arian Ewrop - wedi dadgomisiynu'r gwasanaethau a ddarparwyd dan ddau Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Agoriad Cyf a Taran. Fe wnaed y penderfyniad i bwrcasu gwasanaethau trwy dendro am 4 contract newydd fydd yn cael eu hariannu trwy ESF a 'r Prosiect Taith i Waith yn ystod 2012/13. O ganlyniad mae'r cyllid gwreiddiol ar gyfer y gwasanaethau hyn (tua £110,000) wedi cael ei ailfuddsoddi yn y prosiect Taith i Waith a'i ddefnyddio i sicrhau arian cyfatebol pellach a chanlyniad hynny fu denu adnoddau ychwanegol sydd werth £600,000 i ymestyn gwasanaethau.

Mae hwn yn esiampl ardderchog o sut y gall adolygiadau gwasanaeth sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu hailfodelu, denu adnoddau ychwanegol ac ymestyn yr ystod o wasanaethau i gyfarfod â'r anghenion, y bwriadau comisiynu, ac i sicrhau gwell gwerth am arian.

2.4 Mae'r tabl isod, felly, yn amlinellu'r arbedion sydd eisoes wedi'u cyflawni o'r trydydd sector am 2012/2013.

| **Cytundebau Lefel Gwasanaeth** | **Arbedion i'r gyllideb craidd 2012/13** |
|---|---|
| Gofal a Thrwsio (dadgomisiynu'r ddarpariaeth o waith addasu bychan o ddarparwr allanol a'i roi i'r Uned Ddarparu fewnol) | £37,500.00 |
| | |
| **Cyfanswm arbedion hyd yn hyn fydd ddim yn cael eu talu yn 2012/13** | **£37,500.00** |

| | |
|---|---|
| | |

## 3.0 Adolygu'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth presennol

3.1 Fe nodwyd bod pob un o'r gwasanaethau a gomisiynir ar hyn o bryd o dan Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r trydydd sector angen eu hadolygu'n llawn er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau'n cyfateb i'r bwriadau comisiynu. Fodd bynnag, bwriedir blaenoriaethu'r rhai a restrir isod oherwydd fe gredir y gellir sicrhau arbedion tebygol naill ai trwy ailfodelu gwasanaethau neu bwrcasu trwy drefniadau tendro. Cynigir, felly, y dylid defnyddio 2012/13 ar gyfer ymchwilio i fodelau a bwriadau comisiynu ar gyfer 2013 ymlaen.

3.2 Rhaid blaenoriaethu'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth canlynol ar gyfer eu hadolygu (o'r rhai a restrir yn Atodiad 1) yn ystod 2012/13:

| **Mudiad** | **Dyraniad Cyllid Craidd** |
|---|---|
| Age Cymru (a adnabuwyd fel Age Concern Gwynedd ac Ynys Môn yn flaenorol) | £94,564.00 |
| Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr - Dolen Môn | £25,215. |
| Epilepsi | £3,416.86 |
| Y Gymdeithas Strôc | £5,394.37 |
| Hafal | £31,018.84 |
| Cymdeithas Gogledd Cymru i'r Byddar(Oedolion) | £15,335.77 |
| Cymdeithas Gogledd Cymru i'r Byddar (Plant) {comisiynwyd ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr} | |

3.3 Cynigir bod y Cyngor yn mynnu ar ostyngiad o 5% yng nghyllid craidd y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pob un Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r darparwyr 3ydd sector yn ystod 2012/13 er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Yn seiliedig ar fuddsoddiadau 2011/12 yn y 19 Cytundeb Lefel Gwasanaeth a restrir yn atodiad 1, bydd hyn yn rhoddi arbedion effeithlonrwydd o £27,678.84 i'r Adran. Mae'r Adran wedi trafod y bwriad hwn gyda'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol yn ystod ei gyfarfod ym Mawrth 2012. Fe drafodwyd hyn hefyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cyswllt a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2012 fel rhan o'r ymarferiad ymgynghori ehangach ar y cynigion cyllidebol ar gyfer 2012/13.

3.4 Ni fydd y gostyngiad 5% hwn ond yn berthnasol i gyllid craidd y Gwasanaethau Cymdeithasol i gomisiynu gwasanaeth o dan y Cytundebau Lefel Gwasanaeth ac ni fydd yn cael effaith ar ddyraniadau a wnaed i nifer o sefydliadau gwirfoddol trwy ffrydiau cyllido eraill fel y Grant Teuluoedd yn Gyntaf a weinyddir trwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, a'r Grant Cefnogi Pobl geir gan Lywodraeth Cymru ac a weinyddir gan yr Adran Gymuned.

## 4.0 Risgiau

**4.1** Fe allai gosod gostyngiad o 5% ar draws yr holl wasanaethau greu risg i rai darparwyr o'u cymharu ag eraill. Y darparwyr hynny nad ydynt yn derbyn cyfraniadau o ffynonellau cyllid arall fydd yn cael eu taro galetaf. Bydd rhaid i'r darparwyr sydd ddim yn derbyn cyfraniadau o ffynonellau eraill wneud newidiadau i'w gwasanaeth a all ostwng lefelau gwasanaeth ar y cyfan.

4.2 Yn y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 19.01.12 a 27.03.12, fe nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd yna bryder y bydd gostyngiadau yng nghyllid y trydydd sector, ynghyd â bwriad y llywodraeth i adolygu budd-daliadau, yn cael effaith andwyol ar y rhaglen ataliol ac ymyrraeth fuan. Fe allai peidio â buddsoddi yn y gwasanaethau ataliol gael effaith negyddol ar Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mae addasu i newid yn rhoi cyfle i newid patrwm y gofal a helpu unigolion i aros yn eu cartrefi yn hirach. Fodd bynnag, fe allai toriadau ym muddsoddiadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn y trydydd sector roi pwysau ychwanegol ar Wasanaethau Cymdeithasol ac fe allai waethygu sefyllfa sydd eisoes yn un anodd.
- Mae rhai gwasanaethau'n wynebu cynnydd sylweddol yn y galw gyda hynny'n golygu y byddant yn ei chael yn arbennig o heriol i weithredu toriadau o 5% tra y bydd eraill yn gallu gwneud hynny gyda llai o boen. Roedd teimlad bod hyn yn creu sefyllfa annheg.

**4.3 Bydd yr Adran yn gweithio'n agos gyda mudiadau I leihau effaith y gostyngiad mewn incwm trwy: Strategaeth Gomisiynu ar gyfer darparu'r gwasanaethau angenrheidiol, adolygiadau ac ail-fodelu gwasanaethau.**

## 5.0 Argymhellion

5.1 Nodi'r arbedion effeithlonrwydd o £37,500 sydd wedi'u sicrhau am 2012/13 trwy adolygu ac ailfodelu gwasanaethau.

5.2 Cymeradwyo'r bwriad i weithredu gostyngiad o 5% mewn cyllid craidd i'r cyfan o'r 19 Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda darparwyr y 3ydd sector yn ystod 2012/13 (gweler atodiad 1).

5.3 Cymeradwyo'r bwriad i barhau gyda rhaglen dreigl o adolygiadau gwasanaeth ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth sydd wedi'u hadnabod yn ystod 2012/13 er mwyn ail-fodelu gwasanaethau yn unol â bwriadau comisiynu a sicrhau arbedion effeithiolrwydd pellach.

| Categori | Cyfanswm |
| --- | --- |
| Arbedion Effeithlonrwydd a nodwyd trwy leihau neu ddadgomisiynu gwasanaeth | **£37,500.00** |
| Cyfanswm y gostyngiad 5% ar gyllid craidd 2012/13 | **£27,678.84** |
| **Cyfanswm GWARIANT O GYLLID CRAIDD 2012/13** | **£525,898.05** |

**Atodiad 1** **Y gwariant presennol a'r gwariant a fwriedir yn 2011/12, 2012/13**

**Atodiad 3. CEISIADAU SECTOR GWIRFODDOL 2012/2013**

| Enw'r Mudiad | Manylion Cyswllt | Pwrpas y Mudiad | Cyfraniad yr Adran 2011/12 | Sylwadau | Gostyngiad 5% yn y Taliad Craidd | Swm a argymhellir o'r CYLLID CRAIDD 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Action for Children | Glenys Campbell<br>Rheolwraig<br>Uned 8<br>Mentec<br>Deiniol Road<br>Bangor<br>01248 353095 | Darparu cefnogaeth uniongyrchol i ofalwyr ifanc rhwng 5 a 18 oed ym Môn. Codi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc a materion sy'n effeithio arnynt gyda mudiadau ac asiantaethau i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion. | £36,766.55 | Mae'r buddsoddiad yn cefnogi cyflogau staff i ddarparu cefnogaeth un-i-un a gweithgareddau grŵp i Ofalwyr Ifanc | £1,838.33 | £34,928.22 |
| Age Concern Gwynedd a Môn | John Clifford Jones<br>Prif Swyddog<br>Tŷ Seiont<br>Ffordd Santes Helen Caernarfon<br>01286 677711 | Hyrwyddo lles pobl hŷn ar draws Môn a Gwynedd. I greu amodau sy'n caniatáu i bobl hŷn gadw eu hannibyniaeth a byw bywydau llawn a bodlon yn eu cartrefi eu hunain os ydynt yn dymuno. | £94,564.00 | Mae cyfran o'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflogau staff | £4,728.20 | £89,835.80 |
| Agoriad | Arthur Beechy<br>Agoriad Cyf.<br>Porth Penrhyn,<br>Bangor,<br>Gwynedd LL57 4HN | Darparu hyfforddiant wedi'i gefnogi a chyfleon am waith i bobl gydag anableddau dysgu yn Llys Llywelyn | £38,500.00 | | £1,925.00 | £36,575.00 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Allgyrraedd Gofalwyr | Manon Ellis Williams<br>Prif Swyddog<br>Uned 6<br>Mentec<br>Ffordd Deiniol<br>Bangor<br>01248 370797 | Mudiad elusennol yw Cynnal Gofalwyr sy'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth i ofalwyr 18+ oed yng Ngwynedd, Conwy a Môn. Mae gofalwyr yn bobl sy'n darparu gofal di-dâl i ŵr/wraig neu bartner, plentyn perthynas neu ffrind sy'n wael, anabl neu hen a bregus. Sefydlwyd yn 1991, ac mae gan y Mudiad record dda o ran darparu gwasanaethau i ofalwyr teuluol di-dâl. Mae tua 890 o ofalwyr wedi'u cofrestru gyda'r mudiad ym Môn, fel ar ddiwedd mis Mawrth 2011. | £67,571.92 | Cwblhawyd adolygiad o wasanaeth Dolen Môn i gefnogi rhiant ofalwyr i bobl gydag anableddau dysgu, ym mis Ionawr 2011. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr angen i gomisiynu neu ailfodelu'r gwasanaeth yn ystod 2012/13. Gwerth cyfredol y gwasanaeth yw £25,215.00 | £3,378.60 | £64,193.32 |
| Epilepsi Cymru | Fiona Kettell<br>Swyddog Datblygu<br>Bradbury House<br>23 Salisbury House<br>Wrecsam<br>01978 312325 | Cefnogi pobl gydag epilepsi, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Darparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i'r gymuned ehangach. | £3,416.86 | | £170.84 | £3,246.02 |
| Gorwel | Gwyneth Williams<br>Rheolwr Gwasanaeth<br>Tŷ Silyn<br>Y Sgwâr<br>Penygroes<br>01286 889241 | Cefnogaeth a gwybodaeth i bobl sy'n dioddef trais yn y cartref. | £16,744.82 | Mae'r buddsoddiad yn cefnogi cyflogau staff. | £837.24 | £15,907.58 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HAFAL | Janet Randles<br>5 Ffordd Rhiw<br>Bae Colwyn<br>Conwy<br>01492 534769 | Yn darparu cefnogaeth ar draws Cymru, bwriad Hafal yw grymuso pobl gydag afiechyd meddyliol difrifol a'u teuluoedd i sicrhau ansawdd bywyd gwell; cyflawni eu dyheadau am adferiad; brwydro yn erbyn gwahaniaethu; mwynhau mynediad cyfartal i iechyd a gofal cymdeithasol, tai, incwm, addysg a gwaith. | £31,018.84 | Mae'r buddsoddiad yn ariannu un swyddog maes i roi cefnogaeth un-i-un a chefnogaeth grŵp i ofalwyr ym maes gwasanaethau Iechyd Meddwl. | £1,550.94 | £29,467.90 |
| Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru | Steven Thomas<br>Rheolwr<br>325 Stryd Fawr<br>Bangor<br>01248 353604 | Darparu gwasanaeth ailsefydlu cynhwysfawr dwyieithog i oedolion a phlant gyda nam gweld. | £39,846.93 | Mae'r buddsoddiad yn ariannu un swyddog ailsefydlu sy'n gweithio yn y Tîm Anabledd Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n darparu arolygiaeth broffesiynol uniongyrchol gan Swyddog Ailsefydlu o Gymdeithas Gogledd Cymru ar gyfer y Deillion. | £1,992.35 | £37,854.58 |
| Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru | Simon Higgins<br>Rheolwr<br>Uned 1, Bryn Cefni<br>Llangefni<br>01248 722963 | Darparu Gwasanaeth Eiriolaeth sy'n sicrhau bod anghenion a hawliau person gydag anabledd dysgu yn cael eu parchu a'u cyfleu gan y person ei hun neu trwy eiriolwr. | £35,048.00 | | £1,752.40 | £33,295.60 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas Gogledd Cymru ar gyfer y Byddar (Gwasanaethau Oedolion) | Jane Priestley Rheolwr Quinton Hazell Ffordd Glan-Y-Wern Mochdre 01492 542235 | Gwella ansawdd bywyd i'r Byddar, y rhai a Fyddarwyd, y Byddar Ddall a rhai sy'n drwm eu clyw trwy ddarparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau priodol. | £15,335.77 | | £766.79 | £14,568.98 |
| Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru (Gwasanaethau Plant-Cyswllt) | Jane Priestley Rheolwr Quinton Hazell Ffordd Glan-Y-Wern Mochdre 01492 542235 | Gwella ansawdd bywyd i'r Byddar, y rhai a Fyddarwyd, y Byddar Ddall a rhai sy'n drwm eu clyw trwy ddarparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau priodol. | £8,904.09 | | £445.20 | £8,458.89 |
| Relate Cymru | Sarah Harris Rheolwr Ardal (Gogledd Cymru) 8 Rniere's Avenue Bae Colwyn 01492 533920 | Mae Relate Cymru yn elusen genedlaethol sy'n arbenigo mewn rhoi cefnogaeth i berthnasau o'r crud i'r bedd i unigolion, cyplau a theuluoedd. | £5,449.25 | | £272.46 | £5,176.79 |
| Samariaid | Tudur Williams Trysorydd a Ymddiriedolwr 30 Ffordd Dolwen Bae Colwyn 01492 518802 | Mae'r Samariaid yn darparu cefnogaeth emosiynol anfeirniadol a chyfrinachol, 24 awr y dydd i bobl sy'n cael teimladau o boendod neu iselder, gan gynnwys teimladau allai arwain at hunanladdiad. | £4,000.00 | | £200.00 | £3,800.00 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Eiriolaeth Cenedlaethol i Ieuenctid | 43 - 47 Stryd Fawr y Wyddgrug Sir y Fflint CH7 1BQ | | £29,278.17 | Ymrwymiad ar y cyd gyda Gwynedd a Chonwy I ariannu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth tros gyfnod o 3 blynedd 2011-14. | £1,463.91 | £27,814.26 |
| Cynllun Eiriolaeth Iechyd Meddwl | Lynne Jones Rheolwr Cynllun 42 Glanrafon Bangor Gwynedd 01248 361811 | Darparu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i bobl gydag anawsterau iechyd meddwl mewn lleoliadau cymunedol a seiceiatrig dwys yn siroedd Gwynedd, Môn a Gogledd Orllewin Cymru. Rydym yn diffinio eiriolaeth fel 'cymryd camau i helpu pobl ddweud yr hyn y maent eisiau ei ddweud, sicrhau eu hawliau, cynrychioli eu diddordebau a chael gwasanaethau. | £4,222.01 | | £211.10 | £4,010.91 |
| Y Gymdeithas Strôc | Paul Underwood Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymru Suite 2, Block 5 56 Carlton Court Parc Busnes Llanelwy Llanelwy 02920 524401 | Y Gymdeithas Strôc yw'r unig elusen yn y DU sy'n gwneud gwaith i fynd i'r afael â dd â'r gwaith trwy'r DU o wrthsefyll strôc mewn pobl o bob oed. Mae'n ariannu gwaith ymchwil i rwystro, trin a gwella dulliau o ailsefydlu, ac yn helpu rhai a ddaeth trwy strôc a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn uniongyrchol trwy ei wasanaethau bywyd ar ôl strôc. Rydym hefyd yn | £5,394.37 | | £269.72 | £5,124.65 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ymgyrchu, yn addysgu ac yn rhoi gwybodaeth i gynyddu gwybodaeth am strôc ar bob lefel yn y gymdeithas ac yn gweithredu fel llais i bawb sy'n cael ei effeithio gan strôc. | | | | |
| UNLLAIS | Joan Doyle<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau<br>42 Glanrafon<br>Bangor<br>Gwynedd<br>01248 353777 | Hyrwyddo unrhyw ddibenion elusennol er budd y bobl sy'n profi problemau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru trwy helpu gwaith y mudiadau gwirfoddol, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl. | £1,000.00 | | £50.00 | £950.00 |
| Cyngor Cymru i'r Deillion | Dilwyn Price<br>Rheolwr Cyllid<br>2ail Lawr,<br>Hallinans House<br>22 Ffordd Casnewydd<br>Caerdydd<br>02920 473954 | Corff ambarél i'r sector amhariad Golwg yng Nghymru a'n rôl yw hyrwyddo lles pobl ddall a rhai rhannol ddall trwy weithio gydag aelodau'n sefydliad i ddarparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol. | £1,069.00 | Mae cyfran o'r arian yn cael ei ddefnyddio i gyflogi staff. | £53.45 | £1,015.55 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor ar Bopeth Ynys Môn | Jackie Blackwell<br>Prif Weithredwr<br>6 Teras Fictoria<br>Caergybi<br>Ynys Môn<br>01407 764719 | Darparu cyngor i bawb a gwella polisïau ac arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl. Mae gwasanaeth CAB yn darparu cyngor annibynnol cyfrinachol a di-duedd am ddim i bawb waeth beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Yn ychwanegol at gyngor cyffredinol, mae'n cynnig lleoliadau i wirfoddolwyr, addysg ar lythrennedd ariannol a chyngor arbenigol ar fudd-dâl lles a dyled. | £115,446.31 | Mae'r buddsoddiad yn cefnogi cyflogau staff i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol a chyngor i ddefnyddwyr y gwasanaeth | £5,772.32 | £109,673.99 |
| | | | **£553,576.89** | **£0.00** | **£27,678.84** | **£525,898.05** |
| | | | **Cyfraniad yr Adran 2011/12** | **Sylwadau** | **Gostyngiad o 5% yn yr Arian Craidd** | **Swm a argymhellir o'r ARIAN CRAIDD 2012/13** |